Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Five Star Home Care Limited**

**Uned 5, Canolfan Fusnes Pro-copy**
**Parc Tŷ Glas Llanishen**
**Caerdydd**
**CF14 5DU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Five Star Home Care Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Five Star Home Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Gwasanaeth cymorth yn y cartref i oedolion 18 oed a throsodd yw Five Star Home Care Limited. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn ardal Caerdydd. Ar y cyfan, mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Nododd ein harolygiad diwethaf bedwar maes gweithredu â blaenoriaeth a phum maes i'w gwella, y llwyddwyd i gyflawni rhai ohonynt o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Yn ddiweddar, mae darparwr y gwasanaeth wedi penodi Unigolyn Cyfrifol newydd, sy'n aros am am benderfyniad gan AGC. Mae'r Unigolyn Cyfrifol presennol yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwasanaeth tan hynny. Mae'n llunio trefniadau llywodraethu ac yn rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â diffygion. Mae angen rhoi cynlluniau cynnydd ar waith er mwyn gallu parhau i wella.

Er bod gwelliannau yn cael eu gwneud, nid yw'r cynnydd yn ddigonol ym mhob maes. Gwelsom enghreifftiau o gofnodion ac adolygiadau gofal ar gyfer y bobl lle roedd gwybodaeth ar goll, neu lle nad oedd y wybodaeth yn gyfredol neu'n ddigonol. O ganlyniad, mae risg o hyd na fydd y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Gwelsom hefyd nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu â lefel ddigonol o ofal, cymhwysedd a sgil o hyd. Rydym wedi cael sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol bod cynlluniau ar waith i ymdrin â hyn.

Nodwyd un maes gweithredu â blaenoriaeth ac wyth maes i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, y ceir tystiolaeth ohonynt ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae angen gweithredu ar unwaith i ymdrin â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Bydd AGC yn arolygu'r gwasanaeth eto er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o fewn yr amserlenni a bennwyd. Os bydd darparwyr

yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth ar fyrder, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

## Llesiant

Rhoddir gwybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth, fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y darparwr. Diwygiwyd y 'Datganiad o Ddiben' er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Rhoddir copïau i'r bobl pan fydd y gwasanaeth yn dechrau. Gwelsom fersiynau wedi'u diweddaru yng nghartrefi'r bobl. Er bod y bobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth, mae angen i'r wybodaeth hon adlewyrchu'r gwasanaeth a roddir. Cyflwynwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn yr arolygiad diwethaf. Mae'r trefniadau llywodraethu presennol wedi gwella ac mae cynlluniau ar waith i ymdrin â'r diffygion sy'n weddill. Mae'r gwasanaeth a ddarperir, fel y'i disgrifir yn y Datganiad o Ddiben, yn parhau i fod yn faes i'w wella yn yr arolygiad hwn.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn fwy bodlon nag o'r blaen ar y gofal y maent yn ei gael ac yn sôn am y gweithwyr gofal sy'n rhoi cymorth iddynt mewn ffordd gadarnhaol. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn gwrtais ac yn dangos parch yn eu cartrefi. Mae safon y ddogfennaeth gofal ysgrifenedig, gan gynnwys asesiadau a chynlluniau personol, yn wael o hyd. Nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion nac yn ddigon cynhwysfawr ac yn aml maent yn cynnwys gwybodaeth anghyson. Nid yw'r adolygiadau o gynlluniau bob amser yn cael eu cynnal yn ddigon aml neu nid ydynt yn nodi'r newidiadau o ran anghenion gofal y bobl. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gymryd camau amserol i ymdrin â hyn.

Ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Nid oes digon o amser teithio wedi'i neilltuo rhwng pob galwad, ac o ganlyniad, mae'n bosibl nad oes cymaint o amser i ddarparu gofal ag a gynlluniwyd, a all effeithio ar ganlyniadau'r bobl. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd gofal yn cael ei ddarparu ar adegau cyson. Roedd nifer o achlysuron lle roedd y staff gofal yn cyrraedd ar adegau a oedd yn amlwg yn wahanol i'r adegau a nodwyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd bod y gwasanaeth yn monitro amseroedd galwadau a'u hydoedd. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gymryd camau amserol i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl bellach yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gofal o ddydd i ddydd. Cadarnhaodd y bobl bod eu galwadau gofal wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Nodwyd bod llai o alwadau yn cael eu methu a bod llai o alwadau ag un aelod o staff yn hytrach na dau aelod o staff. Cadarnhaodd y bobl fod gan y staff gofal ddigon o amser i ddarparu eu gofal er bod y cofnodion yn dangos nad yw'r bobl bob amser yn cael y cyfnod amser llawn a ddynodwyd ar eu cyfer. Dywedodd y staff gofal wrthym fod ganddynt ddigon o amser i wneud eu gwaith yn ddiogel ac yn gywir.

Nid yw'r bobl yn cael eu hamddiffyn yn gyson rhag niwed. Er i ni nodi bod y darparwr wedi atgyfnerthu'r gweithdrefnau diogelu, mae angen eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae polisi diogelu cyfredol a threfniadau diogelu priodol bellach ar waith. Fodd bynnag, cafodd rhai aelodau o'r staff eu cyflogi heb ddilyn gweithdrefnau recriwtio a fetio cadarn. Nid yw'r bobl

bob amser yn cael gofal a chymorth gan staff gofal wedi'u hyfforddi'n addas. Nid yw'r staff gofal bob amser yn cael eu goruchwylio i sicrhau y caiff gofal a chymorth o ansawdd eu rhoi i'r bobl. Mae'r darparwr wedi datblygu cynlluniau er mwyn ymdrin â'r materion hyn.

## Gofal a Chymorth

Roedd y bobl yn siarad yn gadarnhaol am eu cydberthnasau â'r staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da mewn ffordd ofalgar a'u bod bob amser yn cwblhau'r hyn sydd ei angen pan fyddant yn ymweld. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn frwdfrydig yn eu rolau ac maent am ddarparu gofal o safon dda. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal. Gwelsom nad oedd pob gweithiwr gofal yn cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael eu cefnogi gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol i alluogi'r bobl i fyw gartref cyhyd â phosibl. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol er mwyn cael mewnbwn ganddynt fel y bo'n ofynnol. Gwelsom enghreifftiau o ymghynghori â staff iechyd galwedigaethol a'u cynnwys pan gaiff newidiadau i symudedd unigolyn eu nodi.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd y darparwr yn cadw nac yn cynnal cofnodion gofal cywir, fel sy'n ofynnol. Mae'r cynlluniau personol yn parhau i ganolbwyntio ar dasgau, yn sylfaenol ac mewn rhai achosion yn cynnwys gwybodaeth nad yw'n gyfredol. Gwelsom fod angen datblygu'r ddogfennaeth gofal ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys digon o fanylion. Lle bo angen, mae angen cwblhau asesiadau risg, gan gynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut i reoli'r risg. Ni lwyddodd y broses o archwilio ac adolygu'r cofnodion gofal i nodi'r diffygion hyn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gymryd camau amserol i ymdrin â hyn.

Mae'r bobl yn cael budd o ofal a chymorth gan ddarparwr gwasanaeth sy'n dangos ymrwymiad i wella diwylliant y sefydliad ac i wella llesiant a phrofiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y staff, gan gynnwys y gweithwyr gofal, wrthym eu bod wedi gweld gwelliannau yn nhrefniadau gweithredu'r gwasanaeth dros y misoedd diwethaf. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn gymwys i ymgymryd â'u rolau a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau.

Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaeth. Nid yw'r cynlluniau personol yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar y cymorth y mae angen iddynt ei ddarparu â meddyginiaeth. Nid yw bob amser yn glir pwy ddylai fod yn rhoi meddyginiaethau – aelod o'r teulu neu'r staff gofal. Nid yw'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn cyfeirio at y meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi ar gyfer yr unigolyn. Yn ogystal, nid oes unrhyw system archwilio glir ar waith ar gyfer yr arferion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau. Mae angen atgyfnerthu'r arferion sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. Gwnaethom hysbysu'r gwasanaeth bod hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl iddo gymryd camau amserol i ymdrin â hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd ac i wneud gwelliannau pan fydd angen gwella profiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwnaed newidiadau i drefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Mae Unigolyn Cyfrifol arfaethedig a benodwyd yn ddiweddar wedi gwneud cais i gofrestru ag AGC. Mae'r Unigolyn Cyfrifol presennol yn gweithredu fel rheolwr ac yn bwriadu cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae trefniadau goruchwylio sefydliadol y gwasanaeth wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r Unigolyn Cyfrifol dros dro yn weladwy iawn ar hyn o bryd yn y gwasanaeth, a gwelsom newid cadarnhaol o ran diwylliant ac ymarfer. Mae darparwr y gwasanaeth bellach yn nodi achosion o berfformiad gwael a meysydd i'w gwella, yn ymdrin â nhw ac yn gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu i ymdrin â diffygion. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi gwella ond mae angen eu rhoi ar waith a pharhau i'w datblygu.

Mae strwythur sefydliadol cliriach o ran atebolrwydd, cyfrifoldebau a thasgau dirprwyedig. Caiff cyfarfodydd wythnosol eu cynllunio er mwyn i'r Unigolyn Cyfrifol dros dro gyfarfod ag arweinwyr pob adran er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth. Nododd ein harolygiad diwethaf bedwar maes gweithredu â blaenoriaeth a phum maes i'w gwella, y llwyddwyd i gyflawni rhai ohonynt o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Er bod gwelliannau yn cael eu gwneud, nid yw'r cynnydd yn ddigonol ym mhob maes.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi un maes gweithredu â blaenoriaeth, mewn perthynas â gofynion sy'n ymwneud â monitro a gwella. Nodwyd wyth maes i'w gwella mewn perthynas â dogfennaeth gofal ac adolygu gofal; goruchwylio'r trefniadau rheoli; darparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben; adolygiad o ansawdd y gofal; meddyginiaeth; goruchwylio, recriwtio a hyfforddi staff.  Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau gweithredu amserol i ymdrin â'r rhain.

Nid yw'r bobl yn cael cymorth gan weithwyr gofal sydd wedi cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio yn eu rolau yn gadarn. Mae proses recriwtio gadarn yn sicrhau bod y staff a gaiff eu cyflogi yn addas i weithio gydag unigolion sy'n agored i niwed. Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y meysydd hyn, datblygwyd matrics interim i olrhain bylchau wrth recriwtio staff, cofrestriadau â Gofal Cymdeithasol Cymru, hyfforddiant, goruchwyliaeth, hapwiriadau ac arfarniadau. Fodd bynnag, mae angen parhau i oruchwylio'r materion hyn.

Mae trefniadau interim bellach ar waith ar gyfer monitro, adolygu, a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i'r bobl. Mae system monitro galwadau electronig newydd yn cael ei

rhoi ar waith. Bydd hyn yn sicrhau archwiliadau ac adolygiadau mwy cywir ac amserol o gofnodion gofal, amseroedd galwadau, hyd galwadau ac amseroedd darparu galwadau. Mae gofyniad rheoliadol i ymgynghori â'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol arfaethedig yn trefnu ymweliadau cychwynnol â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn eu cartrefi cyn y Nadolig. Yna mae'n bwriadu trefnu ymweliadau rheolaidd â'r bobl fel rhan o'i weithdrefnau ansawdd gofal.

Mae'r darparwr bellach yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau adroddadwy sy'n sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw. Mae'r darparwr yn deall ei ofynion cyfreithiol o ran gofalu am bobl sy'n agored i niwed. Mae darparwr y gwasanaeth yn parhau i weithio gyda'r comisiynwyr i wella'r gwasanaeth a ddarperir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 8 | Mae systemau aneffeithiol ar waith i fonitro'r gwasanaeth ac i nodi'r gwelliannau gofynnol. Mae angen i'r systemau hyn sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu ac y cymerir camau gweithredu pan fo'n briodol. | Newydd |
| 27 | Mae angen i'r darparwr sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau diogelu ar waith, eu bod yn gyfredol a bod y staff yn eu dilyn. | Cyflawnwyd |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei fetio'n briodol cyn iddo ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben na pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi dangos ei fod yn llywodraethu ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Systemau mewn perthynas ag archwilio; adolygiad o Ansawdd y Gofal; monitro galwadau; dogfennaeth gofal; diffyg datblygiad a chymorth i'r staff. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli yn ddigonol i sicrhau bod rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn briodol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod galwadau'n cael eu hamserlennu'n effeithiol fel bod modd eu cyflawni'n brydlon, caniatáu amser ar gyfer yr anghenion gofal y cytunwyd arnynt, a sicrhau eu bod yn para am y cyfnod amser a gomisiynwyd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei fetio'n briodol. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli yn ddigonol i sicrhau bod rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn briodol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod galwadau'n cael eu hamserlennu'n effeithiol fel bod modd eu cyflawni'n brydlon, caniatáu amser ar gyfer yr anghenion gofal y cytunwyd arnynt, a sicrhau eu bod yn para am y cyfnod amser a gomisiynwyd. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben na pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi dangos ei fod yn llywodraethu ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Systemau mewn perthynas ag archwilio; adolygiad o Ansawdd y Gofal; monitro galwadau; dogfennaeth gofal; diffyg datblygiad a chymorth i'r staff. | Newydd |
| 58 | Ni all darparwr y gwasanaeth fod yn sicr bod ganddo drefniadau clir ar waith i oruchwylio'r broses o roi meddyginiaeth yn ddiogel yn effeithiol. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am sut i roi cymorth i'r unigolyn. | Heb Gyflawni |
| 16 | Nid oes system ar waith i sicrhau bod cynlluniau gofal personol yn cael eu hadolygu bob tri mis neu'n gynt. | Heb Gyflawni |
| 80 | Fel rhan o'r gwaith monitro i sicrhau ansawdd, nid yw'r darparwr wedi cynnwys data cyfunol ar gwynion, hysbysiadau, digwyddiadau a materion diogelu. | Heb Gyflawni |
| 36 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio na gwiriadau cymhwysedd rheolaidd. Nid yw'r staff bob amser yn cwblhau hyfforddiant cychwynnol na hyfforddiant diweddaru ar bynciau craidd, nac ychwaith hyfforddiant sy'n benodol i ddefnyddwyr y gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion unigolion. | Heb Gyflawni |
| 60 | Mae'r darparwr wedi methu â'n hysbysu (AGC) am ddigwyddiadau a nodwyd yn Atodlen 3 rhan 1. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/01/2024